Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Defnyddio cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) ar gyfer gwybodaeth am berfformiad ysgolion yng Nghymru

ISBN digidol 978 1 78859 514 8
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2020
WG33551

# Cynnwys


**Rheoli fersiynau** **2**

**Cyflwyniad** **3**
**Trosolwg o wybodaeth am berfformiad** **4**
Gwybodaeth Perfformiad 5
Gwerthoedd cyfraniadol – [Blwyddyn] 6

**Chwilio am gymhwyster** **8**
Chwilio yn ôl ystod oedran 8
Chwilio yn ôl y math o gymhwyster 9
Chwilio yn ôl mesur perfformiad 10

**Statws cymhwyster** **12**

**Allforio data am gymhwyster** **12**
1 Allforio yn Gymraeg / Saesneg 13
2 Allforio gyda graddau yn Gymraeg / Saesneg 13
3 Allforio cyflawn yn Gymraeg / Saesneg 14

**Newidiadau i wybodaeth am berfformiad ar QiW** **15**

**Atodiad 1 – Disgrifiad o feysydd perfformiad** **17**
**Atodiad 2 - Cwestiynau cyffredin** **18**

## Rheoli fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad | Diben/newid |
|---|---|---|
| **1** | 01/02/2020 | Wedi ei newid i adlewyrchu swyddogaethau newydd mewn perthynas â gwybodaeth am berfformiad |
| **2** | 14/07/2020 | |

## Cyflwyniad

1. Cronfa ddata yw Cymwysterau yng Nghymru (QiW) sydd dan berchnogaeth a rheolaeth Cymwysterau Cymru, rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae QiW yn cynnwys manylion yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi i'w haddysgu yng Nghymru i ddysgwyr dan 19 oed, ac eithrio addysg uwch. Bydd unrhyw gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi gan Cymwysterau Cymru yn gymwys i gael arian gan Awdurdod Lleol neu Lywodraeth Cymru. Ar gyfer y darparwr addysg, nid y dysgwr, y mae'r arian hwn. Mae'r wybodaeth a gedwir yn QiW yn cynnwys:

    - teitlau cymwysterau
    - rhifau cymwysterau
    - enw'r Corff Dyfarnu sy'n dyfarnu pob cymhwyster
    - dyddiadau cychwyn a gorffen cymwysterau
    - dolenni cyswllt i ragor o wybodaeth am gymwysterau
    - gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys a yw'n cyfrif fel dewis ar gyfer Llwybrau Dysgu 16-19, a gwybodaeth am fesurau perfformiad.


2. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi crynodeb o nodweddion QiW, fel y mae'n berthnasol i wybodaeth am berfformiad, a sut i chwilio am gymhwyster ar sail y meini prawf dymunol. Hefyd, bydd yn dangos sut a pham mae Llywodraeth Cymru'n diweddaru gwybodaeth am berfformiad ar y dudalen Gwybodaeth Perfformiad a Chwricwlwm. Bydd adran Cwestiynau Cyffredin yn darparu atebion i gwestiynau cyffredin yn ymwneud â gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar QiW.

3. Cofiwch mai Llywodraeth Cymru sy'n llunio polisi ar fesurau perfformiad ysgolion ac sy'n penderfynu ar ddyrannu gwerthoedd cyfraniadol cymwysterau, pwyntiau perfformiad a'r codau diystyru a roddir i gymwysterau unigol. QiW sy'n cadw'r wybodaeth hon.

4. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar sut mae'r cymwysterau'n cyfrannu at fesurau perfformiad, gan gynnwys gwerthoedd cyfatebol TGAU/Safon Uwch, pwyntiau perfformiad neu godau diystyru, ewch i QiW yn gyntaf. Os nad ydych yn gallu dod o hyd i ateb i'ch cwestiwn, e-bostiwch ims@llyw.cymru.

# Trosolwg o wybodaeth am berfformiad

5. Mae QiW yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a’r cwricwlwm ar gyfer pob cymhwyster hyd at a chan gynnwys Lefel 3. Gellir ei gweld drwy ddewis botwm ‘Gwybodaeth Perfformiad a Chwricwlwm’ ar brif dudalen ‘Gweld cymhwyster’, fel y gwelwch isod. Caiff yr wybodaeth yn yr adran hon ei chynnal gan Lywodraeth Cymru.


Chwilio cymwysterau > Canlyniadau > Gweld cymhwyster


Gweld cymhwyster
CBAC TGAU Lefel 1/ Lefel 2 mewn Mathemateg
*WJEC Level 1/Level 2 GCSE in Mathematics*

Gwybodaeth Perfformiad a Cwricwlwm
Ychwanegu at Ffefrynnau

**Manylion sylfaenol y cymhwyster**

Math o adolygiad: Cymeradwyo
Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC: C00/0720/4

6. Ar y dudalen hon, mae gwybodaeth am y cwricwlwm ac am berfformiad sy’n gysylltiedig â’r cymhwyster. Gweler isod.


**Gwybodaeth Cymhwyster**

Rhif y cymhwyster: 601/4907/3
Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC: C00/0720/4

**Gwybodaeth Cwricwlwm**

Cyffredinol/Galwedigaethol: Cyffredinol
Dewis cyn-16: Ie
Dewis ôl-16: Na
Maes: A. Mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg

*Am ymholiadau ynghylch Cynllunio'r cwricwlwm a dewis Cyn/Ôl-16 - cysylltwch â* **14.19@gov.wales**

**Gwybodaeth Perfformiad**

Blwyddyn Adrodd: 2020
Cod diystyru: 2391
Gweld cymwysterau gyda'r un cod disgowntio
Lle mae gan gymhwyster godau maes llafur lluosog, gall codau disgownt ar gyfer amrywiadau'r maes llafur unigol fod yn wahanol. Mae rhestr lawn ar gael yma

**Gwerthoedd cyfraniad - 2020**

Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr

| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfraniad Maint | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Llythrennedd | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Rhifedd | Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr - Gwyddoniaeth | Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Sgôr Pwyntiau |
| | | | | | | | |

Gwerthoedd Trothwy

Disodliwyd mesurau trothwy Cyfnod Allweddol 4 gan fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro. Dangosir gwerthoedd trothwy isod at ddibenion gwybodaeth yn unig.


| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Trothwy Lefel 1 | Trothwy Lefel 2 | Lefel 2 cynhwysol - Llythrennedd | Lefel 2 cynhwysol - Rhifedd | Trothwy Lefel 3 |
| | | | | | |

A yw hwn yn amodol i'r terfyn 40% ar gymhwysterau sydd heb fod yn TGAU?: Na


## Gwybodaeth Perfformiad

7. Mae'r adran hon yn cynnwys:

   - **Blwyddyn adrodd –** dyma'r flwyddyn adrodd pan fydd y dysgwyr perthnasol yn cyrraedd y cohort Blwyddyn 11 sy'n cael ei fesur. Gallwch ddefnyddio'r gwymplen i ddewis y flwyddyn adrodd y mae gennych ddiddordeb ynddi. Bydd hyn yn dangos a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu tuag at y mesurau perfformiad perthnasol yn y flwyddyn adrodd dan sylw, a sut.




   - **Cod diystyru –** mae'r cod diystyru yn pennu p'un a fydd gwerthoedd perfformiad cymhwyster yn cael eu diystyru yn erbyn gwerthoedd cymwysterau eraill ai peidio – os oes gan ddau gymhwyster yr un cod diystyru, y cymhwyster sydd â'r gwerthoedd perfformiad uchaf yn unig fydd yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod mesurau perfformiad yn rhoi credyd unwaith yn unig am un cwrs astudio hyd yn oed os bydd dysgwr wedi ennill mwy nag un cymhwyster yn yr un maes pwnc.




8. Gallwch ganfod pa gymwysterau eraill a fydd yn diystyru yn erbyn y cymhwyster dan sylw drwy ddewis '**Gweld cymwysterau gyda'r un cod diystyru**', fel y dengys uchod.

9. Lle mae gan gymhwyster opsiynau gwhanol o ran maes llafur, dim ond un rhif QN / QWAD fydd yn ymddangos yn QiW. Fodd bynnag, gallai'r codau diystyru ar gyfer yr opsiynau unigol fod yn wahanol. Ceir rhestr llawn yma.

## Gwerthoedd cyfraniadol – [Blwyddyn]

12. Mae'r adran hon yn cynnwys tablau o'r gwerthoedd perfformiad a briodolir i bob gradd posibl ar gyfer y cymhwyster yn y flwyddyn adrodd rydych wedi'i dewis uchod. Mae'r gwerthoedd cyfraniadol wedi'u rhannu'n ddau brif gategori:

- **Gwerthoedd sgôr pwyntiau –** mae'r rhain yn dangos gwerth y pwyntiau y gall pob gradd eu cyfrannu at y mesurau perfformiad perthnasol a ph'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu at y mesurau perfformiad unigol a/neu slotiau pwnc-benodol y mesur Capio 9 (dros dro).

Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr

| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfraniad Maint | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Llythrennedd | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Rhifedd | Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr - Gwyddoniaeth | Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Sgôr Pwyntiau |
| A* | 1 | 58 | Na | Ie | Na | Na | 58 |
| A | 1 | 52 | Na | Ie | Na | Na | 52 |
| B | 1 | 46 | Na | Ie | Na | Na | 46 |
| C | 1 | 40 | Na | Ie | Na | Na | 40 |
| D | 1 | 34 | Na | Ie | Na | Na | 34 |
| E | 1 | 28 | Na | Ie | Na | Na | 28 |
| F | 1 | 22 | Na | Ie | Na | Na | 22 |
| G | 1 | 16 | Na | Ie | Na | Na | 16 |

- **Gwerthoedd trothwy -** gallwch hefyd weld y gwerthoedd trothwy blaenorol ar gyfer y cymhwyster, hy y cyfraniad y byddai pob gradd yn ei wneud tuag at bob mesur trothwy blaenorol. Ers 2019, mae mesurau trothwy Cyfnod Allweddol 4 wedi'u disodli gan y mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro, sydd i gyd yn seiliedig ar sgoriau pwyntiau. Mae'r gwerthoedd trothwy, ac eithrio Lefel 3 ar gyfer dysgwyr ôl-16, yn parhau i fod wedi'u darparu ar QiW er gwybodaeth yn unig.

**Gwerthoedd Trothwy**

Disodlwyd mesurau trothwy Cyfnod Allweddol 4 gan fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro. Dangosir gwerthoedd trothwy isod at ddibenion gwybodaeth yn unig.

| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Trothwy Lefel 1 | Trothwy Lefel 2 | Lefel 2 cynhwysol - Llythrennedd | Lefel 2 cynhwysol - Rhifedd | Trothwy Lefel 3 |
| A* | 1 | 1 | Na | Ie | 0 |
| A | 1 | 1 | Na | Ie | 0 |
| B | 1 | 1 | Na | Ie | 0 |
| C | 1 | 1 | Na | Ie | 0 |
| D | 1 | 0 | Na | Na | 0 |
| E | 1 | 0 | Na | Na | 0 |
| F | 1 | 0 | Na | Na | 0 |
| G | 1 | 0 | Na | Na | 0 |

**A yw hwn yn amodol i'r terfyn 40% ar gymhwysterau sydd heb fod yn TGAU?** Na


13. Darperir disgrifiad byr o bob maes yn Atodiad 1.

## Chwilio am gymhwyster

14. Mae QiW yn cynnwys nifer o opsiynau ar gyfer chwilio am gymhwyster/cymwysterau ar sail meini prawf allweddol ac allforio data'r canlyniadau, os oes angen.

## Chwilio yn ôl ystod oedran


15. Mae chwilio'r QiW yn ôl ystod oedran cymhwyster yn caniatáu i chi weld yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer myfyrwyr cyn-16/ôl-16, ac felly'r rhai y gellir eu cyfrif mewn gwybodaeth am berfformiad Cyfnod Allweddol 4/Ôl-16. Rhaid i gymhwyster gael cymeradwyaeth ystod oedran cyn-16 (a ddynodir fel "cyn-16" yn y maes "ystodau oedran") ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4, a chymeradwyaeth ôl-16 neu ystod oedran 16-18 ar gyfer mesurau Ôl-16. Gallwch eu dewis yn y sgrin chwilio, fel y gwelir isod.





16. Heb gymeradwyaeth/dynodiad cyn-16 ni fydd gan gymhwyster wybodaeth am berfformiad Cyfnod Allweddol 4 ac ni fydd yn cael ei gynnwys yng nghanlyniadau haf Cyfnod Allweddol 4.

## Chwilio yn ôl y math o gymhwyster

17. Gallwch chwilio yn ôl y math o gymhwyster er mwyn edrych ar gymwysterau TGAU yn unig, er enghraifft. I wneud hyn, dewiswch y math perthnasol o gymhwyster o’r gwymplen, fel y dengys isod:




18. Gallwch hefyd allforio canlyniadau eich chwiliad, lle bo angen. Gallwch wneud hyn drwy ddewis y botwm ‘Allforio i CSV’ ar ochr dde’r sgrin ar ôl i chi hidlo eich canlyniadau, fel y dengys isod.



Chwilio cymwysterau - Canlyniadau

Allforio I CSV | Mireinio'r meini prawf

**Meini Prawf Cyfredol:**

- Math o cymhwyster = Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
- Corff Dyfarnu = WJEC - WJEC-CBAC

Dangos 25 cofnod

| Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC | Rhif Cyfeirnod Ofqual | Corff Dyfarnu | Lefel y cymhwyster | Cymhwyster is-lefel | Math o cymhwyster | Teitl y cymhwyster | Iaith | Statws | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C00/0078/5 | 500/3690/7 | WJEC - WJEC-CBAC | Lefel 1/2 | | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | CBAC TGAU Lefel 1/ Lefel 2 mewn Astudiaethau Ffilm (Peilot) *WJEC Level 1/Level 2 GCSE in Film Studies (Pilot)* | Saesneg-Cymraeg | Ddim ar gael bellach | Gweld |
| C00/0078/6 | 500/4462/X | WJEC - WJEC-CBAC | Lefel 1/2 | | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | CBAC TGAU Lefel 1/ Lefel 2 mewn Arlwyo *WJEC Level 1/Level 2 GCSE in Catering* | Saesneg-Cymraeg | Ddim ar gael bellach | Gweld |
| C00/0078/7 | 500/5440/5 | WJEC - WJEC-CBAC | Lefel 1/2 | | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | CBAC TGAU Lefel 1/ Lefel 2 yn y Celfyddydau Perfformio *WJEC Level 1/Level 2 GCSE in Performing Arts* | Saesneg-Cymraeg | Ddim ar gael bellach | Gweld |
| C00/0158/9 | 500/4399/7 | WJEC - WJEC-CBAC | Lefel 1/2 | | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | CBAC TGAU Lefel 1/ Lefel 2 mewn Economeg y Cartref: Bwyd a Maeth *WJEC Level 1/Level 2 GCSE in Home Economics: Food and Nutrition* | Saesneg-Cymraeg | Ddim ar gael bellach | Gweld |
| C00/0159/0 | 500/4400/X | WJEC - WJEC-CBAC | Lefel 1/2 | | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | CBAC TGAU Lefel 1/ Lefel 2 mewn Economeg y Cartref: Tecstilau *WJEC Level 1/Level 2 GCSE in Home Economics: Textiles* | Saesneg-Cymraeg | Ddim ar gael bellach | Gweld |
| C00/0159/1 | 500/4401/1 | WJEC - WJEC-CBAC | Lefel 1/2 | | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd | CBAC TGAU Lefel 1/ Lefel 2 mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plentyn *WJEC Level 1/Level 2 GCSE in Home Economics: Child Development* | Saesneg-Cymraeg | Ddim ar gael bellach | Gweld |

## Chwilio yn ôl mesur perfformiad

19. Ers 2019, mae nifer o ddulliau chwilio newydd ar gael ar QiW sy’n gysyllltiedig â mesurau perfformiad interim Cyfnod Allweddol 4, sef:

- **Yn cyfrif tuag at slot/mesur Llythrennedd** – bydd dewis ‘ydy’ yn dangos rhestr o gymwysterau sy’n gallu cyfrannu tuag at y mesur llythrennedd a slot llythrennedd pwnc-benodol y sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro).




- **Yn cyfrif tuag at slot/mesur Rhifedd -** bydd dewis ‘ydy’ yn dangos rhestr o gymwysterau sy’n gallu cyfrannu tuag at y mesur rhifedd a slot rhifedd pwnc-benodol y sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro).





- **Yn cyfrif tuag at slot/mesur Gwyddoniaeth –** bydd dewis ‘ydy’ yn dangos rhestr o gymwysterau sy’n gallu cyfrannu tuag at y mesur gwyddoniaeth a slot gwyddoniaeth pwnc-benodol y sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro).




- **Yn cyfrif tuag at Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru -** bydd dewis ‘ydy’ yn dangos rhestr o gymwysterau sy’n gallu cyfrannu tuag at fesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.




20. Unwaith byddwch wedi dewis y mesur y mae gennych ddiddordeb ynddo, gallwch ddewis opsiwn ‘Dewis meysydd’ er mwyn canfod y meysydd sy’n berthnasol i’ch chwiliad chi. Argymhellir eich bod yn cynnwys rhif cymeradwyo/dynodi CC a theitl y cymhwyster o leiaf bob amser er mwyn sicrhau eich bod yn deall y canlyniadau. Gweler yr enghraifft isod.




21. Gan fod pob cymhwyster a gymeradwyir neu a ddynodir ar gyfer dysgwyr cyn-16 yng Nghymru yn gallu cyfrannu at y Sgôr Pwyntiau 9 Wedi'i Chapio (dros dro), nid oes cyfleuster chwilio penodol ar gyfer Capio 9. Fodd bynnag, gallwch ddod o hyd i restr gyfan o gymwysterau sy'n gallu cyfrannu at Capio 9 drwy ddewis opsiwn "-16" o dan ystodau oedran, fel y nodir isod.



## Statws cymhwyster

22. Mae gan gymhwyster bedwar statws:

- **Yn dod yn fuan –** nid yw cymwysterau â’r statws hwn ar gael i’w cyflwyno yng Nghymru hyd yma, ac nid oes gwybodaeth am berfformiad ar gael. Unwaith bydd dyddiad dechrau’r cymhwyster wedi cyrraedd, bydd hyn yn sbarduno gwybodaeth am berfformiad a bydd statws y cymhwyster yn newid i ‘Ar gael i ddysgwyr’.


- **Ar gael i ddysgwyr** – mae’r statws hwn yn golygu bod gwybodaeth am berfformiad wedi’i chyflwyno, a’i fod o fewn dyddiad gorffen yr ardystio a’i ddyddiad gorffen gweithredol. Gall dysgwyr newydd gofrestru ar y cwrs hwn.

- **Ddim ar gael bellach i ddysgwyr newydd** – mae hyn yn golygu bod y cymhwyster wedi pasio ei ddyddiad gorffen gweithredol, felly nid yw dysgwyr newydd yn gallu cofrestru mwyach. Mae’n dal o fewn dyddiad gorffen yr ardystio, ac felly mae’n cynnwys gwybodaeth am berfformiad.

- **Ddim ar gael bellach** – mae hwn yn golygu bod dyddiad gorffen yr ardystio bellach wedi pasio.

## Allforio data am gymhwyster

23. Mae QiW yn cynnwys nifer o opsiynau ar gyfer tynnu gwybodaeth am gymwysterau, a fydd yn cael ei lawrlwytho i ffeil CSV.



## 1 Allforio yn Gymraeg / Saesneg

24. Os ydych chi eisiau allforio'r cymwysterau cyfredol yn unig, yna dewiswch y botymau '*Allforio yn Gymraeg/Saesneg*' neu '*Allforio gyda graddau yn Gymraeg/Saesneg*'. Dim ond cymwysterau â statws '*Yn dod yn fuan*', '*Ar gael i ddysgwyr*' a '*Ddim ar gael bellach i ddysgwyr newydd*' sydd wedi'u cynnwys yma.

## 2 Allforio gyda graddau yn Gymraeg / Saesneg

25. Mae'r botwm 'Allforio gyda graddau yn Gymraeg/Saesneg' yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ar gyfer pob gradd o fewn y cymhwyster ac ar gyfer pob blwyddyn adrodd. Yn ogystal â'r wybodaeth am berfformiad ar gyfer y mesurau perfformiad blaenorol, o 2019 mae'r allforion hyn yn cynnwys y pedair colofn newydd canlynol ar gyfer mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro, sy'n ymddangos ar ddiwedd y detholiad:

| Colofn | Enw'r Maes |
|---|---|
| BC | Sgôr pwyntiau wedi'i chapio (dros dro) – Llythrennedd (2019 ymlaen) |
| BD | Sgôr pwyntiau wedi'i chapio (dros dro) – Rhifedd (2019 ymlaen) |
| BE | Sgôr pwyntiau wedi'i chapio (dros dro) – Gwyddoniaeth (2019 ymlaen) |
| BF | Sgôr pwyntiau wedi'i chapio (dros dro) – Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (2019 ymlaen) |

26. Maent i gyd yn feysydd 'Ydy/Na' sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrif tuag at y mesur perthnasol/slotiau pwnc-benodol y Capio 9 (dros dro), yn y flwyddyn adrodd honno. Dylid nodi y bydd y colofnau hyn yn wag yn unrhyw flynyddoedd adrodd cyn 2019 (pan gyflwynwyd y mesurau newydd) ac felly dylid eu hystyried fel 'Na'.

27. Dylid edrych ar y meysydd hyn ochr yn ochr â'r meysydd cyfredol canlynol sydd, gyda'i gilydd, yn nodi gwerth pwyntiau pob gradd bosibl, ac ar gyfer pob blwyddyn adrodd, ar gyfer pob cymhwyster. Dyma fydd y gwerth y mae'r gradd/cymhwyster yn gallu ei gyfrannu tuag at y mesur(au) perthnasol.

| Colofn | Enw'r Maes |
|---|---|
| AP | Graddfa graddio |
| AQ | Pwyntiau perfformiad |
| BB | Blwyddyn adrodd |

28. Yn ogystal, dylech edrych ar y maes codau diystyru, sy'n nodi p'un a fydd un cymhwyster yn peri i gymhwyster arall gael ei ddiystyru (bydd hyn yn digwydd lle bo ganddynt yr un cod diystyru).

| Colofn | Enw'r Maes |
|---|---|
| AG | Cod diystyru |

29. Mae'r maes 'Cyfraniad Maint' hefyd yn parhau i gael ei ddefnyddio ers 2019 wrth gyfrifo sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro). Defnyddir y maes hwn i bennu pwyntiau safonedig, hy pwyntiau cymhwyster wedi'u cyfrifo mewn perthynas â'r hyn sy'n cyfateb i un TGAU.

30. Nid yw'r meysydd a restrir isod, sy'n ymwneud â'r fersiwn flaenorol o fesurau trothwy CA4 a Capio 9, yn cael eu defnyddio bellach at ddibenion mesurau perfformiad CA4. Maent yn parhau i gael eu darparu at ddibenion gwybodaeth hanesyddol, ond ni chânt gynnwys data ar gyfer blynyddoedd adrodd 2019 ymlaen.

| Colofn | Enw'r Maes |
|---|---|
| AH | Ydy'r cyfyngiad 40% ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU yn berthnasol i hyn? |
| AI | Yn cyfrif tuag at DPC 2016 |
| AJ | Yn cyfrif tuag at L2, gan gynnwys yr elfen iaith/mathemateg |
| AR | Trothwy L1 |
| AS | Trothwy L2 |
| AU | Lefel 2 cynhwysol – Llythrennedd |
| AV | Lefel 2 cynhwysol – Rhifedd |
| AX | Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio – Llythrennedd |
| AY | Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio – Rhifedd Mathemateg |
| AZ | Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio – Mathemateg |
| BA | Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio – Gwyddoniaeth |

31. Gellir gweld hefyd y cod diystyru ar gyfer pob cymhwyster.

## 3 Allforio cyflawn yn Gymraeg / Saesneg

32. I gael rhestr o'r holl gymwysterau yng nghronfa ddata QiW, gallwch ddewis y botwm '*Allforio cyflawn yn Gymraeg/Saesneg*'. Bydd y ffeil allforio hwn yn cynnwys y cymwysterau wedi'u harchifo sydd wedi'u rhestru fel '*Ddim ar gael bellach i ddysgwyr newydd'* gan fod dyddiad gorffen yr ardystio wedi pasio, a hefyd y cymwysterau sydd '*Yn dod yn fuan*' ac felly nad oes gwybodaeth am berfformiad ar gael ar eu cyfer eto.

33. Mae'r detholiad hwn yn dangos y meysydd perfformiad fel y'u disgrifiwyd o dan (2) uchod.

34. Caiff y ffeiliau hyn eu diweddaru bob tro y mae statws cymhwyster yn newid yn QiW er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gywir pan fydd y defnyddiwr yn ei lawrlwytho.

## Newidiadau i wybodaeth am berfformiad ar QiW

35. Bydd gwybodaeth am berfformiad ar gyfer blwyddyn adrodd yn parhau'r un fath o 31 Awst y flwyddyn flaenorol, gan gychwyn o 2018 ymlaen. Er enghraifft, mae hyn yn golygu y bydd gwybodaeth am berfformiad 2022 yn cael ei 'rhewi' ar 31 Awst 2021. Yr unig eithriad i hyn fydd unrhyw newid a wnaed gan Lywodraeth Cymru pan fo gwybodaeth wallus am berfformiad wedi'i chyflwyno neu pan fydd manylion cymhwyster wedi'u newid gan y corff dyfarnu a/neu Cymwysterau Cymru.

36. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i'r meysydd canlynol:

- **Oriau dysgu dan arweiniad** – caiff y gwerth ar gyfer yr oriau dysgu dan arweiniad ei ddefnyddio i gyfrif 'band maint' priodol y cymhwyster – mae hyn yn pennu sut mae'n cyfateb i TGAU/Safon Uwch o ran maint ac felly ei werthoedd perfformiad. Os yw newid i'r gwerth hwn yn newid band maint y cymhwyster, gallai hyn arwain at gynnydd neu ostyngiad yn ei werthoedd perfformiad.

- **Ystod oedran** – gan fod angen i gymhwysterau gael eu cymeradwyo neu eu dynodi i'w cyflwyno i grwpiau oedran penodol er mwyn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad perthnasol, bydd newidiadau i'r ystod oedran yn effeithio ar y gwerthoedd perfformiad. Er enghraifft, os nad yw cymhwyster wedi'i gymeradwyo neu ei ddynodi bellach i'w gyflwyno i grwpiau cyn-16, ni all gyfrif mwyach tuag at fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4.

- **Strwythur graddio** – caiff pwyntiau perfformiad gwahanol eu rhoi i gymhwyster yn seiliedig ar y gradd a gyflawnir. Pennir y gwerth hwn drwy ddefnyddio tablau 'pwyntiau sylfaen' ar gyfer y strwythur graddio perthnasol (yn seiliedig ar lefel y cymhwyster a nifer y graddau). Felly, os yw'r strwythur graddio'n newid, bydd hyn yn effeithio ar y pwyntiau sylfaen perthnasol ac felly'r gwerthoedd perfformiad.

- **Dyddiad gorffen yr ardystio** – os caiff dyddiad gorffen yr ardystio ei newid ar gyfer cymhwyster, bydd hyn yn effeithio hefyd ar y blynyddoedd adrodd lle gall gyfrif tuag at y mesurau perfformiad. Er enghraifft, os oedd gan gymhwyster dyddiad gorffen o 31 Awst 2022 a bod hyn yn cael ei leihau i 31 Awst 2020, ni fyddai'r cymhwyster bellach yn cyfrif tuag at flynyddoedd adrodd 2021 ymlaen. Yr eithriad yw lle bydd dysgwyr yn rhoi cynnig ar gymhwyster yn gynnar, a bod y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu yn ystod blwyddyn pan fydd QiW yn nodi ei fod yn cyfrannu at fesurau

perfformiad. Yn yr achos hwn, bydd y cymhwyster yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad perthnasol y flwyddyn adrodd pan fydd y dysgwr yn cyrraedd y cohort blwyddyn 11 a fesurir (beth bynnag am yr hyn a ddangosir ar QiW ar gyfer y flwyddyn honno).

37. Os caiff Dyddiad Gorffen yr Ardystio ei ymestyn, bydd yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad perthnasol yn y blynyddoedd adrodd ychwanegol. **Noder:** gall fod angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru hyn â llse ac felly efallai na fydd yn ymddangos ar unwaith ar QiW. Anfonwch e-bost at ims@llyw.cymru os ydych yn credu bod yr wybodaeth am berfformiad yn anghywir.

38. Os yw'r newidiadau uchod yn arwain at ostyngiad nodedig yn y gwerthoedd perfformiad, bydd ysgolion yn cael cyfnod gras cyn bod y pwyntiau perfformiad yn cael eu lleihau ar QiW. Hynny er mwyn sicrhau nad yw'r ysgolion dan anfantais annheg lle mae disgyblion eisoes wedi dechrau cwrs cyn i'r newid perthnasol gael ei wneud. Bydd y cyfnod gras yn gymesur â'r cyfnod y bydd ei angen i addysgu'r cwrs, ar sail ei faint mewn perthynas â TGAU (yn achos cymwysterau Lefel 2) neu mewn perthynas â Safon Uwch yn achos cymwysterau Lefel 3, fel y dangosir isod.

| **Cyfwerthedd Maint** | **Cyfnod Gras** |
|---|---|
| Llai nag 1 TGAU | 1 flwyddyn adrodd |
| 1 TGAU neu fwy | 2 flwyddyn adrodd |
| Llai nag 1 Safon Uwch | 1 flwyddyn adrodd |
| 1 Safon Uwch neu fwy | 2 flwyddyn adrodd |

39. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru'n cyfrifo gwybodaeth am berfformiad ar sail y manylion a ddarperir gan Gymwysterau Cymru ynghylch cymwysterau, gweler y canllaw *Mesur perfformiad ysgol: gwerthoedd cyfraniad cymwysterau* ar wefan Llywodraeth Cymru.


# Atodiad 1 – Disgrifiad o feysydd perfformiad

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwerthoedd sgôr pwyntiau** | |
| Graddfa Graddio | Mae'n dangos rhesi ar wahân ar gyfer pob gradd bosibl y gellir ei hennill yn y cymhwyster. |
| ***Mesurau Cyfnod Allweddol 4*** | |
| Cyfraniad maint y cymhwyster | Maint y cymhwyster o gymharu â TGAU. |
| Sgôr pwyntiau wedi'i chapio | Nifer y pwyntiau y gall pob gradd a gyflawnir eu cyfrannu at y sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro). Dyma hefyd yw'r gwerth y mae'n gallu ei gyfrannu i'r mesurau ar wahân perthnasol, os yw'n gymhwyster cymwys (gweler y meysydd isod). |
| Sgôr pwyntiau wedi'i chapio - Llythrennedd | Maes 'ydy' neu 'na' sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu at y mesur Llythrennedd a slot Llythrennedd penodol y sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro). |
| Sgôr pwyntiau wedi'i chapio - Rhifedd | Maes 'ydy' neu 'na' sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu at y mesur Rhifedd a slot Rhifedd penodol y sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro). |
| Sgôr pwyntiau wedi’i chapio – Gwyddoniaeth | Maes 'ydy' neu 'na' sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu at y mesur Gwyddoniaeth a slot Gwyddoniaeth penodol y sgôr pwyntiau 9 wedi'i chapio (dros dro). |
| Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Maes 'ydy' neu 'na' sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu at y mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. |
| ***Mesurau Ôl-16*** | |
| Sgôr pwyntiau | Dyma nifer y pwyntiau y gall y cymhwyster eu cyfrannu at y mesurau perfformiad ôl-16. |
| | |
| Graddfa Graddio | Y raddfa a ddefnyddir i raddio cymhwyster. Mae'n dangos rhesi ar wahân ar gyfer pob gradd bosibl gyda gwerthoedd perfformiad gwahanol yn dibynnu ar y gradd a gyflawnir. |
| **Gwerthoedd trothwy** | |
| ***Mesurau Cyfnod Allweddol 4*** | |
| Trothwy Lefel 1 | Y gwerth y mae'r cymhwyster yn gallu ei gyfrannu at fesur trothwy Lefel 1, sy'n gyfwerth â TGAU. |
| Trothwy Lefel 2 | Y gwerth y mae'r cymhwyster yn gallu ei gyfrannu at fesur trothwy Lefel 2, sy'n gyfwerth â TGAU. |
| Lefel 2 cynhwysol - Llythrennedd | Maes 'ydy' neu 'na' sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu at ofyniad llythrennedd y mesur Lefel 2 cynhwysol sy’n benodol i wahanol bynciau. |
| Lefel 2 cynhwysol - Rhifedd | Maes 'ydy' neu 'na' sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrannu at ofyniad rhifedd y mesur Lefel 2 cynhwysol sy’n benodol i wahanol bynciau. |
| ***Mesurau Ôl-16*** | |
| Trothwy Lefel 3 | Y gwerth y mae'r cymhwyster yn gallu ei gyfrannu at fesur trothwy Lefel 3, sy'n gyfwerth â Safon Uwch. |

# Atodiad 2 - Cwestiynau cyffredin

## 1) Sut allaf wirio y bydd cymhwyster yn cyfrif mewn mesurau perfformiad?

**Cam 1:** Chwiliwch am y cymhwyster perthnasol ar QiW i ddechrau. Mae pob cymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo/ddynodi i'w gyflwyno yng Nghymru yn ymddangos ar QiW a bydd yn cyfrannu at fesurau perfformiad sy'n destun i'r un amodau. Chwiliwch 'Gwybodaeth am Fesurau Perfformiad' (gan ddefnyddio'r botwm isod) am gymhwyster perthnasol i weld sut mae'n cyfrif tuag at y mesurau perthnasol ar hyn o bryd.



Gweld cymhwyster

Pearson Edexcel TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn Mathemateg

*Pearson Edexcel Level 3 Advanced Subsidiary GCE in Mathematics*

Gwybodaeth Perfformiad a Cwricwlwm

Ychwanegu at Ffefrynnau

**Manylion sylfaenol y cymhwyster**


| | |
|---|---|
| Math o adolygiad | Dynodi |
| Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC | C00/0088/0 |
| Wedi'I gynnig yn Lloegr | Ie |
| Rhif y cymhwyster | 100/3411/0 |
| Corff Dyfarnu | Pearson - Pearson Education Ltd |
| Teitl Cymraeg y cymhwyster | Pearson Edexcel TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn Mathemateg |
| Teitl saesneg y cymhwyster | Pearson Edexcel Level 3 Advanced Subsidiary GCE in Mathematics |
| Lefel y qymhwyster | Lefel 3 |

Os na allwch weld cofnod o'r cymhwyster, yna holwch Cymwysterau Cymru (gweler Cam 4) neu'r sefydliad dyfarnu'n uniongyrchol.

**Cam 2:** Gofalwch fod y cymhwyster yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- **Ystod oedran priodol**: rhaid i'r cymhwyster fod wedi'i gymeradwyo ar gyfer yr ystod oedran cyn-16 ar gyfer mesurau Cyfnod Allweddol 4, a'r ystodau oedran cyn-16 neu 16-18 ar gyfer mesurau Ôl-16.

- **Mae'r flwyddyn adrodd ar gyfer y cohort disgyblion dan sylw cyn dyddiad gorffen yr ardystio:** mae cymhwyster wedi'i gynnwys yng ngwybodaeth Llywodraeth Cymru am berfformiad ar gyfer blwyddyn adrodd os yw dyddiad gorffen ardystio'r cymhwyster naill ai ar neu ar ôl 1 Medi yn y flwyddyn academaidd honno. Er enghraifft, mae cymhwyster wedi'i gynnwys yn yr wybodaeth am berfformiad ar gyfer 2019 os yw dyddiad gorffen ardystio'r cymhwyster hwnnw ar neu ar ôl 1 Medi 2018.




| | |
|---|---|
| Lefel y qymhwyster | Lefel 3 |
| Is-lefel y cymhwyster | Heb ei osod |
| Math o gymhwyster | TAG Safon UG |
| Ystodau oedran | -16 |
| | 16 - 18 |
| | 18+ |
| Maes pwnc sector (SSA) | 2. Gwyddoniaeth a mathemateg |
| Maes pwnc is-sector | 2.2 Mathemateg ac ystadegau |
| Iaith | Saesneg YN UNIG |
| **Dyddiadau allweddol** | |
| Dyddiad dechrau | 01/09/2000 |
| Dyddiad gorffen gweithredol | 31/07/2019 |
| Dyddiad gorffen yr ardystio | 31/08/2019 |

**Noder:** yr eithriad i hyn yw lle mae disgybl yn cymryd cymhwyster yn gynnar (cyn bod dyddiad gorffen yr ardystio wedi pasio) a bod y cymhwyster yn dal yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad perthnasol, ond erbyn i'r disgybl gyrraedd y cohort Blwyddyn 11 sy'n cael ei fesur bod QiW yn dangos nad yw'r cymhwyster yn cyfrif tuag at y flwyddyn adrodd honno. Yn yr amgylchiadau hyn, yr wybodaeth am berfformiad ar gyfer y flwyddyn y dyfarnwyd y cymhwyster sy'n cael ei defnyddio i gyfrif y mesurau perfformiad, ac felly byddai'r cymhwyster yn dal i gyfrif.

**Cam 3:** Ystyriwch:

- Rheolau diystyru – edrychwch ar godau diystyru QiW i weld a fydd y cymwysterau'n distyru ei gilydd, ac felly ni fydd pob un yn cyfrif tuag at y mesurau os cânt eu dyfarnu i ddisgybl unigol (gallwch ddefnyddio'r opsiwn 'Gweld cymwysterau gyda'r un cod diystyru' fel y dengys isod). Gallwch hefyd wirio'r cymwysterau sydd â sawl cod diystyru ar ein gwefan.



| | |
|---|---|
| **Blwyddyn Adrodd** | 2019 |
| **Cod diystyru** | 2210 |
| | **Gweld cymwysterau gyda'r un cod disgowntio** |
| | Lle mae gan gymhwyster godau maes llafur lluosog, gall codau disgownt ar gyfer amrywiaethau'r maes llafur unigol fod yn wahanol. Mae rhestr lawn ar gael **yma** |

- Gweler ein canllawiau ar y mesurau perfformiad dros dro a sut gall cymwysterau gyfrannu atynt yma.

**Cam 4:** Dylid nodi mai'r corff rheoleiddio, Cymwysterau Cymru, sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch cymeradwyo/dynodi cymwysterau i'w cyflwyno yng

Nghymru. Felly, dylech anfon unrhyw ymholiadau ynghylch parhau i gymeradwyo/dynodi cymwysterau yn uniongyrchol at Cymwysterau Cymru yn:

Ymholiadau cyffredinol: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
Cydnabod a chymeradwyo:
cydnabodachymeradwyo@cymwysteraucymru.org

## 2) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr wybodaeth am berfformiad ar gyfer blynyddoedd adrodd 2018 a 2019 ymlaen?

Ers 2019, mae'r wybodaeth am berfformiad a ddangosir ar QiW wedi'i newid i adlewyrchu'r ffaith bod mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro wedi'u cyflwyno. Mae 'gwerthoedd trothwy' yn dal i gael eu darparu er gwybodaeth yn unig.

### *'Gwerthoedd cyfraniadol' NEWYDD QiW – 2019 ymlaen*

**Gwerthoedd cyfraniad - 2020**

**Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr**

| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfraniad Maint | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Llythrennedd | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Rhifedd | Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr - Gwyddoniaeth | Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Sgôr Pwyntiau |
| Llwyddo Mynediad 3 | 1 | 14 | Na | Na | Na | Na | 14 |

**Gwerthoedd Trothwy**

Disodlwyd mesurau trothwy Cyfnod Allweddol 4 gan fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros dro. Dangosir gwerthoedd trothwy isod at ddibenion gwybodaeth yn unig.

| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Trothwy Lefel 1 | Trothwy Lefel 2 | Lefel 2 cynhwysol - Llythrennedd | Lefel 2 cynhwysol - Rhifedd | Trothwy Lefel 3 |
| Llwyddo Mynediad 3 | 0 | 0 | Na | Na | 0 |

**A yw hwn yn amodol i'r terfyn 40% ar gymhwysterau sydd heb fod yn TGAU?** Ie

Fel y dengys uchod, mae'r adran 'Gwerthoedd Sgoriau Pwyntiau' wedi newid fel a ganlyn:

- **Sgôr pwyntiau wedi'i chapio – Llythrennedd**: heb ei newid.
- **Sgôr pwyntiau wedi'i chapio – Rhifedd**: mae hyn yn cyfuno'r colofnau blaenorol 'Sgôr pwyntiau wedi'i chapio - Rhifedd Mathemateg' a 'Sgôr pwyntiau wedi'i chapio – Mathemateg'. Mae'n dangos p'un a

yw'r cymhwyster yn gallu cyfrif tuag at slot Rhifedd y Capio 9 a'r mesur Rhifedd ar wahân.

- **Sgôr pwyntiau wedi'i chapio – Gwyddoniaeth**: mae hwn bellach yn golofn 'Ydy' neu 'Na' (yn hytrach na'r patrwm blaenorol '0 o 2', '1 o 2' neu '2 o 2') sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrif tuag at slot Gwyddoniaeth y Capio 9 a'r mesur Gwyddonaieth ar wahân.
- **Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru**: dyma golofn newydd sy'n dangos p'un a yw'r cymhwyster yn gallu cyfrif tuag at fesur ar wahân Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

***'Gwerthoedd cyfraniadol' BLAENOROL QiW – cyn 2019***

**Gwerthoedd cyfraniad - 2018**

**Gwerthoedd Trothwy**

| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Trothwy Lefel 1 | Trothwy Lefel 2 | Lefel 2 cynhwysol - Llythrennedd | Lefel 2 cynhwysol - Rhifedd | Trothwy Lefel 3 |
| Llwyddo Mynediad 3 | 0 | 0 | Na | Na | 0 |

**Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr**

| Graddfa Graddio | Mesurau Cam Allweddol 4 | | | | | | Mesurau Ôl-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfraniad Maint | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Llythrennedd | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Rhifedd Mathemateg | Sgôr Pwyntiau wedi'u capio - Mathemateg | Gwerthoedd Pwyntiau Sgôr - Gwyddoniaeth | Sgôr Pwyntiau |
| Llwyddo Mynediad 3 | 1 | 14 | Na | Na | Na | 0 o 2 | 14 |

### 3) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y maes 'dewis cyn-16/ôl-16' a'r meysydd 'ystod oedran'?

Yn yr adran ar y cwricwlwm ar dudalen 'Gwybodaeth Perfformiad a Chwricwlwm' Llywodraeth Cymru, fe welwch feysydd dewis cyn-16 ac ôl-16 (gweler isod).

**Gwybodaeth Cymhwyster**

| | |
|---|---|
| **Rhif y cymhwyster** | 100/3411/0 |
| **Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC** | C00/0088/0 |

**Gwybodaeth Cwricwlwm**

| | |
|---|---|
| **Cyffredinol/Galwedigaethol** | Cyffredinol |
| **Dewis cyn-16** | Na |
| **Dewis ôl-16** | Na |
| **Maes** | A. Mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg |

Meysydd cwricwlwm yw’r rhain, sy’n dangos a yw’r cymhwyster wedi’i gategoreiddio fel dewis neu beidio i ddysgwyr cyn-16, o ran bodloni Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. **Ni ellir defnyddio’r rhain i bennu a fydd cymhwyster yn cael ei gynnwys mewn mesurau perfformiad ysgol.**

I weld a fydd cymhwyster yn cael ei gynnwys yn y mesurau perfformiad, rhaid gwirio’r maes ‘Ystod oedran’ perthnasol ar y brif dudalen ‘Gweld y cymhwyster’ (gweler isod).

| | |
|---|---|
| Teitl saesneg y cymhwyster | Pearson Edexcel Level 3 Advanced Subsidiary GCE in Mathematics |
| Lefel y qymhwyster | Lefel 3 |
| Is-lefel y cymhwyster | *Heb ei osod* |
| Math o gymhwyster | TAG Safon UG |
| Ystodau oedran | -16 |
| | 16 - 18 |
| | 18+ |